funded by

# LLAIS OLDFORD

Rhag/Ion 2008-09

## Cynhadledd Cymunedau yn Gyntaf Powys

*Cymunedau Cryfach trwy Weithio mewn Partneriaeth*

Ar 20fed Tachwedd 2008 trefnwyd Cynhadledd Cymunedau yn Gyntaf Powys gan dair ardal Cymunedau yn Gyntaf Powys yn Hafod a Hendre, Llanelwedd. Fe'u cefnogwyd gan Swyddog Cyswllt Cymunedau yn Gyntaf, Susan Morley, Cyngor Sir Powys a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn gyda dros 90 o bobl yn bresennol!

Cafwyd cyflwyniadau gan bob un o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Powys, a hefyd gan y bobl sy'n gweithio yn yr ardaloedd hyn. Eleni, arwyddwyd ymrwymiad gan gynrychiolwyr PAVO, Coleg Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, i gefnogi gwaith Cymunedau yn Gyntaf yn nhair ardal Oldford, Bro Ddyfi ac Ystradgynlais.

Dymuna staff Cymunedau yn Gyntaf Oldford ddiolch i bawb am eu cymorth cyn ac yn ystod y gynhadledd. Diolchiadau arbennig i Brendan McWhinnie o Gymdeithas Tai Clwyd Alyn am ei anerchiad ar ran staff a Phartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf.

De:
Cynrychiolwyr PAVO, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Choleg Powys yn arwyddo'r ymrwymiad.

## CCB Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Oldford

**Dydd Mercher 17eg Rhagfyr**
**Cychwyn am 11yb**
**Neuadd y Dref, Y Trallwng.**

Dewch draw i glywed am lwyddiannau Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Oldford yn ystod 2008 ac ymunwch â ni ar gyfer cinio.

Crèche am ddim os ydych yn trefnu ymlaen llaw.
Am fwy o wybodaeth, neu i archebu lle, ffoniwch ni ar 556648.

## Yn y rhifyn hwn:


| | |
|---|---|
| *CCB Cymunedau yn Gyntaf* | *1* |
| *Hyfforddiant* | *2* |
| *Ysgol Babanod Oldford* | *3* |
| *Y Get Going Gang* | *4* |
| *Cystadlaethau Nadolig* | *5* |
| *Ryseitiau Nadolig* | *6* |


If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

# LLAIS OLDFORD

## ‘Siopa’n Gall at y Nadolig’

Mae Gwasanaeth Safonau Masnach Cyngor Sir Powys wedi rhoi’r syniadau canlynol ar Siopa at y Nadolig:

* Does dim rhaid i siopau gymryd pethau nôl oni bai bod rhywbeth o’i le arnynt, ond yn aml maent yn helpu oherwydd ewyllys da. Gofynnwch cyn prynu felly.
* Gofynnwch a oes gan y siop drefniadau arbennig ar gyfer anrhegion Nadolig nad oes eu heisiau. Gofynnwch am dderbynneb rodd.
* Os oes angen i chi ddychwelyd unrhyw beth, mae tystiolaeth o’i brynu yn bwysig iawn. Felly cadwch eich derbynebion mewn lle diogel wrth i chi ddechrau siopa.
* Edrychwch ar anrhegion cyn eu lapio. Fel hyn gallwch osgoi siom ar Ddiwrnod Nadolig, a’ch galluogi i drafod gyda’r siop yn gynnar.
* Ystyriwch ddefnyddio cerdyn credyd i brynu pethau sy’n costio dros £100. Ceir mwy o ddiogelwch os bydd pethau‘n mynd o’i le, er enghraifft os oes nam ar y nwyddau.
* Byddwch yn ofalus iawn gyda ‘Siopau Nadolig’ tymhorol a seliau un-dydd sy’n ymddangos dros nos. Mae’n bosib y byddant yn diflannu’r un mor gyflym ar ôl i’r Nadolig fynd.
* Cadwch at rybuddion ar degannau mewn perthynas ag oedran, a chwiliwch am nodau diogelwch megis Nod y Llew. Gofalwch nad yw plant iau’n cael gafael ar deganau i blant hŷn.
* Edrychwch ar deganau i chwilio am ddarnau rhydd neu finiog. Ceisiwch osgoi’r tempastiwn i brynu nwyddau ffug rhad, achos maent yn debygol o fod o ansawdd gwael ac yn beryglus.

consumer direct
www.consumerdirect.gov.uk
08454 04 05 06
clear, practical consumer advice
funded by government

## Potty Potato

*Cynllun Ffrwythau a Llysiau Cydweithredol*

*Cofiwch archebu eich ffrwythau a llysiau at y Nadolig ar 11eg Rhagfyr, i’w casglu ar 18fed Rhagfyr!*

**Bob Dydd Iau**
**Ysgol Babanod Oldford - 2.30yp - 3.30yp**
**Undeb Credyd Robert Owen**
**yn Swyddfa Cymdeithas Tai Clwyd Alyn - 4yp - 6yh**

Talwch ac archebwch wythnos ymlaen llaw i gael ffrwythau a llysiau tymhorol ffres!
£3.00 am bob bag llawn
£2.00 am bob hanner bag
Wyau maes - £1.50 am ddwsin a 75c am hanner dwsin

## Cwrs Gyrwyr Ifanc Pass Plus Cymru.

Wyt ti rhwng 17 - 25 oed a newydd basio’r-prawf gyrru?

**Fel hyn mae’n gweithio...**

Bydd yn canolbwyntio ar:
• Gyrru ar draffyrdd
• Technegau gyrru a bod yn ymwybodol o beryglon
• Gyrru gyda’r nos
• Ymdopi gyda gyrru mewn trefi a dinasoedd prysur
• Gyrru ar ffyrdd cefn gwlad
• Meddwl ymlaen llaw — fel rwyt ti’n gwneud nawr

**Beth yw’r manteision i ti?**
• Sgiliau gyrru gwell
• Mwy o obaith o gostau yswiriant llai*
• Llai o debygolrwydd o wrthdrawiad neu o anafu dy hunan, ffrindiau ac eraill

Gall Pass Plus Cymru fod yn ddelfrydol i ti. Mae’n gwrs gyrru uwch byr, dan arweiniad arbenigwyr wedi’i anelu at bobl ifanc sydd am ddatblygu technegau ffordd ac ehangu profiad.

Cyrsiau sydd ar gael hyd yn hyn:

- Gorsaf Dân Y Drenewydd – 11eg Rhagfyr
- Gorsaf Dân Llandrindod – 7fed Ionawr
- Gorsaf Dân Y Drenewydd - 12fed Chwefror

Cost y cwrs cyfan i bob unigolyn yw £20.00. Bydd yr Uned Diogelwch ar y Ffyrdd, trwy arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn talu’r gweddill o £100.00.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sarah Morris ar 01597 826637. Fel arall gellir archebu lle ar dy ddewis gwrs di drwy ffonio 0845 050 4255 neu drwy fynd at :www.dragondriver.com.

## Cwrs Cyfrifiaduron

Mae’r cwrs hwn yn addas i ddechreuwyr pur hyd at bobl sydd am wella’r sgiliau TG sydd ganddynt eisoes.

**Tŷ Emerald House, Ysgol Oldford**
**Amser: 1.00 - 3.00**
**Dyddiadau: 12.01.09 - 23.03.09**
**Cost: Am ddim**
**Tystysgrifau ar gael.**

I gadw lle a/neu gofrestru ffoniwch Annie Evans
0845 4086 276

Coleg Powys

## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Ysgol Babanod Oldford

Roedd 2008 yn flwyddyn dda iawn i Ysgol Oldford:-

* Penodwyd nyrs ysgol newydd – Kelly Pearce
* Codwyd cannoedd o bunnoedd gan y Gymdeithas Rheini ac Athrawon i blant fynd ar ymweliadau a chael teganau awyr agored newydd
* Cafwyd llawer o fyfyrwyr prifysgolion a cholegau'n hyfforddi yn ein hysgol
* Buom yn gweithio gydag Ysgol Gungrog ar gwrs coginio i rieni
* Newidiwyd amser y grŵp rhiant a phlentyn i fore dydd Mawrth a bore dydd Iau, ac mae mwy o bobl yn dod
* Aethom i ymweld ag amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn y Trallwng a thu hwnt
* Cynhaliwyd tair rhaglen dysgu lwyddiannus i deuluoedd gyda rhieni a phlant
* Cynhaliwyd 3 cyfarfod gyda rhieni i drafod sut mae eu plant yn gyrru ymlaen
* Cymerwyd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau yn y Trallwng, yn eu mysg y Carnifal, Dydd Gŵyl Dewi a Dathliadau'r Nadolig
* Cynhyrchwyd DVD o straeon digidol gyda'r Pensiynwyr sy'n dod yma i gael cinio ar ddydd Iau olaf bob mis
* Trefnwyd dau gwrs ar Rianta gyda chymorth Barnados
* Trefnwyd Clwb Tennis ar ôl ysgol
* Buom yn gweithio gydag Ysgol Maesydre i sefydlu gwasanaeth brecwast am ddim gan fod ein cynllun bwyta'n iach ni wedi derbyn statws arfer da
* Cynhaliwyd diwrnod o hwyl ar y cyd gyda Chymunedau yn Gyntaf a holl ysgolion a gwasanaethau plant Y Trallwng
* Cafwyd ymgyrch gwych i hyrwyddo darllen a derbyniwyd gwerth £1000 o lyfrau newydd gan gwmni Usborne

*Negyddol*

Bu'n rhaid inni gau oherwydd streic ac ar gyfer dyddiau hyfforddiant ychwanegol

Bu farw ein llywodraethwr, Mrs Maggie Morgan

Nid oeddem yn fodlon gyda safonau diwedd blwyddyn 2, ac rydym yn gweithio'n galetach fyth i helpu plant cyrraedd eu potensial

**Edrychwn ymlaen at sialensiau 2009**

**Rydym wrth ein bodd yn gweithio gyda'r gymuned. Dewch i weld beth sydd ar gael yma.**

### Heddlu Dyfed – Powys

**Gwarchod y Gymdogaeth**

Fel rhan o'n hymgyrch i leihau Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, mae Tîm Plismona Bro'r Trallwng am annog pobl i chwarae rhan weithgar mewn cynlluniau Gwarchod y Gymdogaeth.

Pwrpas Gwarchod y Gymdogaeth yw i bobl ddod at ei gilydd gyda chymdogion a gweithio'n agos gyda'r Heddlu er mwyn gwneud ein cymdogaeth yn lle mwy diogel inni fyw ynddo. Mae'r cynllun yn gweithio'n effeithiol pan fydd perthynas gref gyda'r heddlu lleol yn bodoli.

Mae i gynlluniau felly rôl bwysig o safbwynt rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu ynghylch gweithgareddau amheus yn y gymdogaeth, megis ffug ymwelwyr, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu fandaliaeth.

Felly hefyd, gall yr heddlu rannu gwybodaeth ynghylch troseddu diweddar yn yr ardal er mwyn i aelodau fod yn wyliadwrus, a chael cyfle i gymryd camau priodol er mwyn peidio dioddef eu hunain.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn sefydlu Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth yn eu hardal ac am drefnu apwyntiad i ddysgu mwy, cysylltwch â:

Tîm Plismona Bro'r Trallwng ar 0845 330 200 est 753461

neu ebostio: welshpooltownnpt@dyfed-powys.pnn.police.uk

### CWM HARRY LAND TRUST

Ffôn: 01686 626234

info@cwmharrylandtrust.org.uk

**Meddwl sut byddwch yn ymdopi dros y Nadolig?**

Twrci, stwffin, tatws, ysgewyll, cacen, pwdin, pasteiod. 'Digon!' yw'r gri. 'Dim mymryn mwy, neu byddaf yn byrstio.'

Na phoenwch! Gall Cwm Harry eich helpu. Cymerwn bopeth na allwch neu na fyddwch yn ei fwyta. Byddwn yn gwneud defnydd da ohono – ei gadw allan o safle tirlenwi – ei droi'n gompost a'i roi yn ôl ar y tir i helpu tyfu... mwy o YSGEWYLL!

Mae'n syniad gwych — yn ein barn ni, beth bynnag.

Felly cofiwch roi eich bwyd gwastraff allan dros y Nadolig. Hyd yn oed os nad ydych yn gwneud fel arfer, byddwn yn hapus i'w gasglu. Defnyddiwch eich bin gwyrdd ar ddiwrnod casglu sbwriel. Brin o fagiau? Ffoniwch ni, a gallwn ddod â rhai i chi.

**NADOLIG LLAWEN A DEDWYDD I BAWB**

# LLAIS OLDFORD

**Ar y ffordd cyn bo hir…..**
**Cysgodfa newydd i leuenctid Oldford**

Gyda chymorth y Tîm Plismona Bro Leol, Cymdeithas Tenantiaid Oldford, Clwyd Alyn a nifer o fudiadau eraill, mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cytuno i roi dwy gysgodfa i bobl ifanc, fel yn y llun uchod, i Oldford. Byddant yn cael eu gosod ym Man Chwarae Oldford, ac yn lle diogel i bobl ifanc eistedd a sgwrsio. Gwahoddwyd pobl ifanc Oldford i ddewis lliw'r gysgodfa ychydig wythnosau yn ôl.
**Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 556648**

## Y GET GOING GANG 2008

**Cofrestrwyd cyfanswm o 108 o blant gyda'r Get Going Gang dros bum wythnos y Cynllun Chwarae eleni.** Cafwyd gweithgareddau amrywiol oedd yn rhoi hwb i hyder a hunan-barch y plant. Ac roedd digon o grefftau wedi'u cynhyrchu i fynd adref i'r rhieni!

Cafwyd syrpreis hyfryd ar y bore cyntaf, pan ddaeth Pudsey o Blant mewn Angen atom. Yn ystod y pum wythnos cynhaliwyd gweithdai proffesiynol, oedd yn cynnwys gwneud gemwaith, dawns, drymio Affricanaidd a mwy. Cafwyd trip i'r sinema, a thaith hwyl o gwmpas Neuadd Dref y Trallwng, pan gafodd y plant cyfle i actio golygfa o'r llys gyda'r Cyng. Alan Crowe. Ymysg tripiau eraill oedd saethyddiaeth, beiciau cwad, ysgol goedwig, Cadburys World a nifer o rai eraill.

Dymuna Liz Gannon, Arweinydd y Tîm, ddiolch i'r holl blant am ddod ac i'w rhieni am eu cefnogaeth. Diolch hefyd i arianwyr y Cynllun ac am yr holl roddion a dderbyniwyd. Ac yn olaf, diolch yn fawr iawn i'r holl staff cyflogedig, a'r gwirfoddolwyr am eu hamser ac ymroddiad.
**Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 555269.**

## CCB Cymdeithas Tenantiaid Oldford

**15fed Rhagfyr**
**Cychwyn 7.00yh**
**Ysgol Babanod Oldford**
Galwch fewn am ddiod a mins pei ac i weld yr hyn a gyflawnwyd eleni.

## Thinking money £

*Dwi'n ofni'r Nadolig eleni oherwydd rydym yn cael trafferth talu'r biliau, a does dim arian dros ben ar gyfer cardiau, anrhegion ac ati. Beth gallaf ei wneud?*

Dilynwch ein syniadau i helpu ymestyn eich arian, a gofalu bod gennych ddigon i dalu'r biliau yn y Flwyddyn Newydd:

- **Blaengynllunio.** Gweithiwch allan faint gallwch chi fforddio'n realistig cyn dechrau gwario, gan ystyried yr hyn fydd ei angen ar gyfer biliau hanfodol megis rhent neu'r morgais, treth y cyngor, nwy a thrydan.
- **Gosodwch uchafswm** ar faint fyddwch chi'n gwario, a glynu ato.
- **Cofiwch fod y Nadolig yn amser drud i bawb** Gyda rhai ffrindiau agos, ac oedolion yn y teulu, efallai y gallwch gytuno i beidio â phrynu anrhegion. Neu gallwch gytuno i gyfnewid anrhegion bychan a chytuno ar uchafswm i'w wario.
- **Ceisiwch siopa gydag arian parod yn unig** - wedyn fyddwch chi ddim yn gwario mwy na'ch cyllideb.
- **Cofiwch siopa o gwmpas,** efallai y cewch hyd i bethau'n rhatach rhywle arall
- **Ceisiwch beidio gadael i'r plant rhoi pwysau arnoch** i brynu teganau neu eitemau eraill drud na allwch eu fforddio. Esboniwch y sefyllfa wrthynt.
- **Peidiwch â mynd i orddrafft oni bai i chi drefnu hyn gyda'ch banc—** bydd y llog fydd angen ei dalu'n gosbol.
- **Ceisiwch gyngor** mor gynnar ag y gallwch os ydych yn cael problemau gyda dyled. Peidiwch â'u hanwybyddu a gobeithio y byddant yn diflannu—byddan nhw ddim. Gweler gwefan y Cyngor ar Bopeth: www.adviceguide.org.uk am gyngor ar sut i ymgodymu â dyled a manylion cyswllt eich CAB agosaf i gael cyngor annibynnol, cyfrinachol, diduedd am ddim.

**FFONIWCH NI OS OES GENNYCH BROBLEM NEU OS HOFFECH WIRFODDOLI**
Cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd am ddim -
CAB Powys 0845 6018421
Maw—Gwe 10yb – 2.30yp
Gwybodaeth arlein ar:
www.adviceguide.org.uk

Gallwch chi helpu'r ffrindiau hyn gyrraedd ei gilydd i gyfnewid anrhegion Nadolig?



Beth am liwio'r gacen Nadolig hon?



Cwis Nadoligaidd …..
Gallwch chi ateb yr holl gwestiynnau yma?

1. Faint o geirw sy'n tynnu car llusg Siôn Corn?
2. Ble mae Siôn Corn yn byw?
3. Beth yw'r aderyn hwn? ⇨
4. Beth yw enw'r peis sy'n cael eu bwyta adeg y Nadolig?
5. O dan ba blanhigyn ydych chi'n cael cusanu rhywun?
6. Pa liw yw'r Grinch?
7. Rhowch enw dyn eira enwog?
8. Pa garw sydd â thrwyn coch?
9. Beth yw'r diwrnod ar ôl Diwrnod Nadolig?
10. Dyfalwch beth yw'r gair sydd ar goll yn y gerdd yma - 'Twas the night before Christmas and all though the house, not a creature was stirring, not even a ……..'

Ysgrifennwch eich atebion ar ddarn o bapur a gofynnwch i oedolyn i edrych a ydynt yn gywir?

## Ho Ho Ho !!!

What's white and goes up?
*A confused snowflake!*

What do you call an old snowman?
*Water!*

Knock knock!
*Who's there?*
Snow.
*Snow who?*
Snow use – I've forgotten my name again!

What do you get if you eat Christmas decorations?
*Tinselitus!*

How does Good King Wenceslas like his pizzas?
*Deep and crisp and even!*

What often falls at the North Pole but never gets hurt?
*Snow!*

Dyddiad cau rhifyn nesaf Oldford Arlein yw: **Dydd Llun 26ain Ionawr 2009**

Os hoffech rannu eich newyddion neu stori gydag Oldford, **ffoniwch ni ar 556648**

# LLAIS OLDFORD

## Danteithion Melys y Nadolig....

### Bisgedi gwydr lliw...

- Dilynwch rysáit sylfaenol am fisgedi a thorri siapiau allan o'r cymysgedd.
- Gosodwch y siapiau hyn ar bapur pobi ar hambwrdd pobi. Torrwch siapiau llai allan o ganol y bisgedi a llenwi'r twll gyda fferins caled wedi'u malu.
- Gwnewch dwll bach ym mhen y bisgedi ar gyfer rhuban os ydych yn defnyddio'r bisgedi i addurno'r goeden.
- Wrth i'r bisgedi bobi yn y ffwrn, bydd y fferins yn toddi. Gadewch iddynt oeri'n llwyr ar ôl eu coginio. Yna eu tynnu'n ofalus o'r papur pobi.

### Bisgedi Sêr Sinsir....

**Cynhwysion:**
65g/2owns menyn
50g/2owns siwgr brown meddal
4 llwy bwrdd triog melyn
150g/5¼owns blawd plaen, wedi'i ridyllu, a pheth dros ben i ysgeintio
1 llwy de o sinsir mâl
½ llwy de o soda pobi
**I addurno:** tiwb o eisin gwyn parod (ar gael ar silffoedd pobi'r rhan fwyaf o archfarchnadoedd)
Peli arian bwytadwy (opsiynol), rhuban arian.

**Dull**
**1.** Cynheswch y ffwrn ymlaen llaw at 180C/350Ff/Nwy 4.
**2.** I wneud y bisgedi, curwch y menyn a'r siwgr gyda'i gilydd mewn bowlen gyda chwisg trydan nes eu bod yn lliw golau ac ysgafn.
**3.** Ychwanegwch y triog melyn, y blawd, y sinsir mâl a'r soda pobi a churwch bob dim gyda'i gilydd i wneud toes. Lapiwch y toes mewn haenen lynu a gadael iddo oeri yn yr oergell am o leiaf 30 munud.
**4.** Rholiwch y toes, ar wyneb wedi'i ysgeintio â blawd, hyd at drwch o ryw 0.5cm/¼ modfedd. Torrwch y toes yn siapiau sêr gyda thorrwr addas, gan weithio mewn tua chanol y toes, ac yn torri mor agos â phosib at ei gilydd. Ail-rholiwch y toes sy'n weddill a pharhau i dorri sêr allan o'r toes nes ei ddefnyddio i gyd.
**5.** Rhowch y sêr ar silffoedd pobi gyda phapur pobi arnynt.
**6.** Rhowch y silffoedd pobi yn y ffwrn a phobi'r bisgedi am ryw 8 munud. Tynnwch nhw o'r ffwrn a gadael iddynt oeri am ychydig funudau ar y silff pobi, yna eu symud i resel weiar i oeri'n llwyr.
**7.** Rhowch eisin ar y bisgedi a'u haddurno gyda pheli arian, pe dymunir.


ENJOY CHRISTMAS
... with Tanat Valley Coaches

**Marchnad Nadolig Frankfurt - Birmingham**
Dydd Gwener 5ed & Sadwrn 6ed Rhagfyr
Oedolion - £12, Plant - £9

**Cinio Nadolig Dirgel**
Dydd Gwener 12fed Rhagfyr
Oedolion - £23, Plant - £19

**Cinio Nadolig yn 'Bridgemere Garden World'**
Dydd Mawrth 16eg Rhagfyr
Oedolion - £27, Plant - £24

**Trip Siopa i'r Seli ym Mirmingham neu'r Ganolfan Bywyd Morol Cenedlaethol**
Dydd Llun 29ain / Mawrth 30ain Rhagfyr
Oedolion - £12, Plant - £9
£5 ychwanegol i'r Ganolfan Bywyd Morol

01691 780212


Cyhoeddiadau...



Nadolig Llawen oddi wrth Undeb Credyd Robert Owen

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth y Get Going Gang

Yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi-gan Gynllun Cydweithredol Potty Potato

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gymdeithas Tenantiaid Oldford

**Nadolig Llawen A Blwyddyn Newydd Dda**
Oddi wrth staff Cymunedau yn Gyntaf Oldford

**Penblwydd Hapus Jake**
10 mlwydd oed ar 15fed Rhagfyr!
Cariad oddi wrth dy holl deulu xxx

**Penblwydd Hapus yn 1 oed Maddie**
Cariad oddi wrth dy holl deulu xxx